

PWYLLGOR DEDDF YSTÂD YR EGLWYS YNG NGHYMRU

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 20 Ionawr, 2025.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd M.R. Wilson (Cadeirydd); Cynghorydd P. Drake (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr C.E.A. Champion, J.E. Charles ac M.J. Hooper.

CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd H.C. Hamilton.

COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Medi, 2024 fel cofnod cywir.

DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

STRATEGAETH FUDDSODDI – DIWEDDARIAD LLAFAR (CAC) –

Darparwyd y diweddariad gan y Rheolwr Gweithredol dros Gyfrifeg, a ddywedodd gan fod Aelodau'r Pwyllgor wedi codi pryderon ynghylch moeseg rhai o'r busnesau y buddsoddodd y gronfa â nhw, yn enwedig o ran Amazon, roedd CCLA wedi ymateb i'r pryderon hyn, gan gynghori eu bod yn derbyn ymholiadau tebyg ynghylch Amazon gan fuddsoddwyr yn eithaf aml, a'u bod yn gweithio gydag Amazon a llawer o gwmnïau eraill gyda'r nod o wella eu harferion moesegol o dan dair 'piler' – Gwell Amgylchedd, Gwell Gwaith ac Iechyd Gwell. Roedd CCLA wedi dweud eu bod wedi llwyddo i weithio gydag Amazon mewn perthynas â'u gwaith Iechyd Gwell, lle roedd Amazon wedi cyflwyno mwy o gefnogaeth i gyflogaion. O dan eu 'piler' Gwell Amgylchedd, roedd CCLA hefyd yn gweithio gyda buddsoddwyr eraill i 'wthio' Amazon ym maes datgelu allyriadau mwy cynhwysfawr. Roedd y Rheolwr

Gweithredol wedi cynnig gweithdy rhwng Aelodau'r Pwyllgor a CCLA, er mwyn deall yn well y materion ac unrhyw awgrymiadau ynghylch gwelliannau posibl i'r portffolio, yn seiliedig ar bryderon y Pwyllgor. Roedd CCLA ar gael i fynychu gweithdy o'r fath a byddai Swyddogion yn trefnu dyddiad addas. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol ymhellach fod CCLA hefyd yn cynnal digwyddiad briffio er mwyn i'r holl fuddsoddwyr gael mewnwleidiad pellach ynghylch eu buddsoddiadau, yr oedd yr Aelodau'n gallu eu mynychu.

Heb unrhyw sylwadau nac ymholiadau pellach, mae'r Pwyllgor wedi gwneud y canlynol:

PENDERFYNWYD

- (1) Nodi'r diweddariad llafar ar strategaeth fuddsoddi a nodau buddsoddi moesegol yr Ymddiriedolaeth.
- (2) Bod gweithdy'n cael ei drefnu gydag Aelodau'r Pwyllgor a CCLA, i drafod pryderon ynghylch moeseg rhai o'r cwmnïau a fuddsoddwyd gydag addasiadau pellach, ac addasiadau posibl i'r portffolio o fuddsoddiadau i fynd i'r afael â'r pryderon moesegol hyn.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Ystyried y diweddariad llafar a thrafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) I Aelodau a CCLA nodi opsiynau ar gyfer buddsoddiad moesegol.

CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL 2024-25 CYFRAN 3 (CAC) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Gweithredol dros Gyfrifeg, a dywedodd y canlynol:

Pennwyd cyllideb o £60k ar gyfer cyhoeddi grantiau yn ystod 2024/25.

Cyfanswm y gronfa wrth gefn anghyfyngedig gyffredinol oedd £167k ar 31 Mawrth, 2024.

Cynigiwyd y dylid defnyddio £20k o'r swm hwn yn 2024/25 ar gyfer grantiau ac felly pennwyd cyfanswm y gyllideb grantiau ar gyfer 2024/25 bellach yn £80k.

Roedd un cais grant a ddyfarnwyd yn 2023/24 am £10k wedi'i dynnu'n ôl a'i ddisodli gan gais grant ar gyfer prosiect newydd sydd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn. Cafodd manylion pellach eu crynhoi yn nes ymlaen yn yr adroddiad.

Ar ôl i'r £10k gael ei dynnu'n ôl, cyfanswm y gyllideb grantiau a oedd ar gael yn 2024/25 oedd £90k.

Ar sail treial roedd yr uchafswm grant y gellid ei ddyfarnu wedi cynyddu o £5k i £10k.

Dyfarnwyd grantiau gwerth cyfanswm o £18.880k yng Nghyfran 1 yn y cyfarfod ar 31 Gorffennaf, 2024 fel sydd ynghlwm yn yr atodiad diwygiedig ynghlwm wrth Atodiad A1 yr adroddiad.

Argymhellwyd grantiau gwerth cyfanswm o £34k fel y nodir yn Atodiad A2 yr adroddiad fel rhan o'r adroddiad.

Roedd swm oedd yn weddill o £37.120k ar gael i'w ddyrannu yn ystod 2024/25.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, gofynnodd y Cynghorydd Hooper a oedd, gan nad oedd y cynllun grant wedi derbyn digon o geisiadau i ddyfarnu'r holl arian sydd ar gael eleni, unrhyw waith ychwanegol y gellid ei wneud i geisio cynyddu nifer y ceisiadau sy'n cael eu gwneud i'r ymddiriedolaeth. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol y gallai Cynghorau Bro Morgannwg a Chaerdydd geisio cynyddu'r gwaith o hyrwyddo'r cynllun grant drwy eu timau cyfathrebu priodol i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun, ac y gellid rhannu cyfathrebiadau ynghylch y cyfle grant â Chynghorau Tref a Chymuned (CTChau). Ychwanegodd y Cadeirydd y gallai'r wybodaeth hon hefyd gael ei rhannu gyda Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg a Chyngor Trydydd Sector Caerdydd. Nododd Aelodau'r Pwyllgor yn dilyn hynny fod llawer ohonynt wedi gwneud eu heglwysi a'u CTChau lleol yn ymwybodol o'r cynllun.

Heb unrhyw sylwadau nac ymholiadau pellach, mae'r Pwyllgor wedi gwneud y canlynol:

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo'r ceisiadau am gymorth grant, fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad.

(2) Bod gwaith yn cael ei gyflawni i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun grant a'r broses ar gyfer gwneud cais, gyda'r bwriad o gynyddu ceisiadau. Byddai hyn yn ddelfrydol yn cynnwys hyrwyddo drwy sianeli cyfathrebu Cynghorau Bro Morgannwg a Chaerdydd, a hefyd yn cynnwys anfon gwybodaeth am y cynllun ymlaen i Bwyllgor Cyswllt Cymunedol Bro Morgannwg, i Gynghorau Tref a Chymuned trwy eu clerod ac i sefydliadau'r trydydd sector fel Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg a Chyngor Trydydd Sector Caerdydd.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Er mwyn hyrwyddo amcanion yr Ymddiriedolaeth.

COSTAU CEFNOGAETH BROFFESIYNOL DEDDFAU EGLWYS CYMRU (CAC) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Gweithredol dros Gyfrifeg, a ddywedodd fod arbediad wedi ei nodi gan Gyngor Bro Morgannwg fel rhan o gyllideb 2024/25 mewn perthynas â chodi cost cymorth staff gan swyddogion y Cyngor i'r Elusen.

Roedd y taliadau'n seiliedig ar gyfradd fesul awr o gostau staff uniongyrchol (gan gynnwys ar gostau) ar gyfer staff Eiddo a Chyfrifeg a'r gyfradd gyfunol safonol ar gyfer staff cyfreithiol a oedd yn cynnwys amser ymchwil ac ati.

Roedd Datganiad o'r Arfer a Argymhellir yr Elusen yn gwneud darpariaeth ar gyfer y mathau hyn o daliadau fel y nodir yn yr adroddiad.

Er bod y swm arbed gwreiddiol a amlinellwyd oddeutu £10,000, teimlwyd bod swm o £5k yn fwy priodol yn seiliedig ar y dyraniadau amser a nodir yn yr adroddiad.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, a chan nad oedd angen unrhyw wybodaeth ychwanegol ar yr Aelodau na'r hyn a nodwyd yn yr adroddiad a'r cyflwyniad, gadawodd y Rheolwr Gweithredol, a'r holl swyddogion eraill a oedd yn berthnasol i'r cynigion yn yr adroddiad, y cyfarfod cyn cynnal unrhyw ddatl bellach.

Mynegodd Aelodau'r Pwyllgor eu barn bod yr adroddiad yn glir ac yn syml, a bod y cynigion i ail-godi am amser swyddogion o'r gronfa yn cynrychioli gwerth da am arian ynghylch y cymorth a ddarparwyd gan y swyddogion hyn i'r Pwyllgor (ac Ymddiriedolwyr y gronfa).

Ar ôl ystyried y mater yn llawn, fe wnaeth y Pwyllgor wedyn:

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo taliadau arfaethedig 2024/25 a thaliadau dangosol 2025/26 a nodir yn yr adroddiad.

Rheswm dros y penderfyniad

Sicrhau bod y gefnogaeth a ddarperir i Ymddiriedolaeth Deddf Degwm yn gynaliadwy a bod y Cyngor yn cael ad-daliad priodol.